Ysgol Mynydd Bychan
New Zealand Road
Gabalfa
Caerdydd
CF14 3BR

22/05/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Ebrill 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Mynydd Bychan yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas ag argymhellion o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Cryfhau'r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd yn fwy cyson ar draws y cwricwlwm

- Mae gan arweinwyr weledigaeth ysbrydoledig ar gyfer datblygu'r agwedd hon. Maent yn cydweithio'n effeithiol â staff ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu wrth ddatblygu cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhif.
- Mae arweinwyr wedi trefnu cyfleoedd gwerthfawr i staff fynychu hyfforddiant ac i gydweithio ag ysgolion eraill. Mae cyfleoedd i arsylwi arfer dda, ynghyd â chefnogaeth gan bartneriaid allanol, wedi cefnogi'r athrawon yn werthfawr. Mae hyn, yn ei dro, wedi datblygu hyder athrawon wrth gyflwyno cysyniadau mathemategol i ddisgyblion.
- Mae athrawon yn myfyrio ar eu darpariaeth yn feddylgar, ac yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau yn gynyddol dros amser. Trwy hyn, maent yn cynnig profiadau sy'n galluogi disgyblion i ddefnyddio eu gwybodaeth a'u medrau mathemategol mewn cyd-destunau ysgogol, ar lefelau her sy'n briodol.

- Drwy gydweithio â chymuned ehangach yr ysgol mae staff yn datblygu prosiectau cyffrous i ddisgyblion gymhwyso’u medrau, i hybu eu hannibyniaeth a’u creadigrwydd. Maent yn gwahodd pobl i’r ysgol i siarad am eu gyrfaoedd a sut mae rhifedd yn rhan allweddol o’r gwaith hwnnw.
- Mae staff yn gofalu bod ystod o offer ymarferol ar gael i’r disgyblion ieuengaf ei ddefnyddio yn annibynnol. Gwnânt ddefnydd hynod effeithiol o ardaloedd y tu fewn a thu allan ar gyfer cynllunio gweithgareddau cyffrous i ddisgyblion gymhwyso eu medrau trwy brofiadau ymarferol a chreadigol gwerthfawr.
- Erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu dealltwriaeth o rif yn llwyddiannus mewn gweithgareddau rhifedd cyfoethog. Mae’r gweithgareddau dysgu hyn wedi eu cynllunio’n fwriadus er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael eu herio hyd eithaf eu gallu yn gyson.
- Mae disgyblion yn trafod eu dysgu yn fedrus ac yn egluro’n glir sut maent yn cymhwyso’u dealltwriaeth o rifedd a’u medrau datrys problemau ar draws y meysydd dysgu.

### Sicrhau bod ansawdd adborth gan athrawon yn gyson er mwyn targedu’r camau nesaf yn nysgu’r disgyblion yn effeithiol

- Mae arweinyddiaeth gref yr ysgol yn sicrhau cydweithio bwriadus, gan feithrin dealltwriaeth gyffredin ymhlith staff o strategaethau adborth effeithiol sy’n gwella cyrhaeddiad disgyblion.
- Trwy ymchwil, hyfforddiant allanol a chydweithio ag ysgolion eraill, mae staff wedi datblygu arbenigedd a pherchnogaeth, gan arwain at gysondeb amlwg mewn arferion asesu ar draws yr ysgol.
- Mae trafodaethau proffesiynol rheolaidd a phrosesau monitro gwaith yn cryfhau arferion addysgu, gan sicrhau defnydd cyson ac effeithiol o adborth.
- Mae disgyblion yn derbyn adborth clir ac adeiladol sydd wedi ei deilwra i’w hanghenion dysgu personol. Mae gweithgareddau asesu yn dyfnhau dealltwriaeth disgyblion o’r meysydd sydd angen eu gwella ac yn cynyddu eu hannibyniaeth wrth ymateb trwy wella cynnwys eu gwaith.
- Mae’r disgyblion ieuengaf yn datblygu hyder i gymryd risgiau yn gynnar iawn, ac o dan arweiniad cynhaliol oedolion, maent yn ymwybodol iawn o’r hawl i wneud, ac i ddysgu o’u camgymeriadau. Wrth i ddisgyblion ddatblygu drwy’r ysgol, mae oedolion yn parhau i gefnogi disgyblion yn dda ac yn hyrwyddo meddylfryd cadarnhaol yn effeithiol. Mae yma elfen gref o ddisgyblion yn cyd-ddysgu er mwyn gwella.
- Mae perthynas waith barchus a holi medrus oedolion yn annog disgyblion i feddwl yn ddyfnach am eu gwaith, i fyfyrio ar eu dysgu ac i ddatblygu eu medrau ar gyfer gwella parhaus.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/ysgol-mynydd-bychan-cy/

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol